Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Dyfodol gofal canser yng Nghymru: Tueddiadau mewn demograffeg a ffactorau ffordd o fyw

Crynodeb gweithredol






# Tueddiadau mewn demograffeg a ffactorau ffordd o fyw

Mae nifer yr achosion o ganser yn cael ei siapio gan ffactorau demograffig fel heneiddio, sy'n cynyddu'r risg oherwydd eu bod yn dod i gysylltiad â charsinogenau a newidiadau biolegol am gyfnod hir, ac ymddygiadau ffordd o fyw fel ysmygu a gordewdra, sydd ill dau'n cynyddu'r risg o ganser yn sylweddol. Mae penderfynyddion cymdeithasol, gan gynnwys statws economaidd-gymdeithasol a mynediad at ofal iechyd, yn dylanwadu ymhellach ar nifer yr achosion o ganser a chyfraddau canfod cynnar.

Yng Nghymru, mae disgwyl i newidiadau mewn demograffeg a phatrymau ffordd o fyw, fel poblogaeth sy'n heneiddio, gordewdra a chyfraddau ysmygu, newid y galw am ofal canser. Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi'r tueddiadau hyn i awgrymu'r baich canser yn y dyfodol, i arwain y gwaith o ddyrannu adnoddau, ac i gefnogi ymyriadau wedi'u targedu sydd â'r nod o wella pethau o ran atal, canfod yn gynnar a thriniaeth. Nod y canfyddiadau yw llywio gwaith cynllunio sy'n seiliedig ar dystiolaeth i sicrhau cynaliadwyedd ac effeithiolrwydd y system gofal iechyd yng Nghymru wrth fynd i'r afael â'r dirwedd canser sy'n newid.

## Twf poblogaeth a heneiddio

Yn ôl Cyfrifiad 2021, cyrhaeddodd Cymru ei phoblogaeth uchaf ar gofnod o 3,107,500, sy'n adlewyrchu twf cymedrol o 1.4% ers 2011 – sy'n sylweddol is na'r cynnydd o 6.6% yn Lloegr. Roedd y twf hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan fudo net, gan fod mwy o farwolaethau na genedigaethau fel rhan o'r newid naturiol yn y boblogaeth. Caerdydd oedd yr awdurdod lleol mwyaf poblog o hyd, a Chasnewydd oedd â'r gyfradd twf uchaf, sef 9.5%.








Yn y cyfamser, cododd cyfran y preswylwyr dros 65 oed o 18.4% yn 2011 i 21.3% yn 2021, gan danlinellu tuedd heneiddio sy’n fwy amlwg nag yn y rhan fwyaf o ranbarthau Lloegr. Mae amcanestyniadau'n dangos y bydd cyfanswm y boblogaeth yn cyrraedd 3.35 miliwn erbyn 2035, gyda phobl dros 65 oed yn cynyddu i gynrychioli dros 25% o'r boblogaeth.

Bydd y newid demograffig hwn yn effeithio'n sylweddol ar ofal iechyd, yn enwedig gofal canser, o ystyried y gydberthynas gref rhwng oedran ac achosion o ganser. Bydd y cynnydd yn y boblogaeth oedrannus yn arwain at fwy o alw am wasanaethau canser. I fynd i'r afael â'r heriau hyn, bydd angen buddsoddi mewn seilwaith gofal iechyd, ehangu'r gweithlu, a mabwysiadu modelau gofal integredig. Ar ben hynny, bydd canolbwyntio ar atal, canfod yn gynnar a mynediad teg ar draws rhanbarthau yn hanfodol i reoli'r baich canser cynyddol a sicrhau bod gofal iechyd cynaliadwy yn cael ei ddarparu yng Nghymru.

## Amddifadedd cymdeithasol

Rhwng 2011 a 2021, gostyngodd amddifadedd aelwydydd yng Nghymru a Lloegr o 57.6% i 51.7%. Roedd lefelau amddifadedd Cymru ychydig yn uwch (54.1%) na Lloegr (51.6%). Mae amddifadedd yn cael ei fesur ar draws cyflogaeth, addysg, iechyd a thai, ac er bod pob awdurdod lleol yng Nghymru wedi gweld gwelliannau, ardaloedd fel Blaenau Gwent (61.7%) a Merthyr Tudful (59.8%) oedd yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt fwyaf o hyd, yn wahanol i ranbarthau mwy cyfoethog fel Sir Fynwy (48.3%).

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yn tynnu sylw ymhellach at anghydraddoldebau rhanbarthol, gyda Blaenau Gwent yn cynnwys 85.1% o ardaloedd bach yn y 50% mwyaf difreintiedig, tra mai dim ond 16.1% oedd gan Sir Fynwy.

Mae tueddiadau'r dyfodol yn awgrymu gostyngiadau parhaus mewn amddifadedd, er y gall anghydraddoldebau rhanbarthol parhaus, yn enwedig mewn ardaloedd ôl-ddiwydiannol, a newidiadau demograffig fel poblogaeth sy'n heneiddio, greu heriau. Mae cysylltiad agos rhwng amddifadedd cymdeithasol a chanlyniadau gofal canser gwaeth oherwydd oedi cyn cael diagnosis, llai o gyfranogiad sgrinio, a mwy o ffactorau risg fel ysmygu a gordewdra. Bydd mynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn drwy ymyriadau wedi'u targedu, addysg iechyd, a gwell mynediad at ofal iechyd yn hanfodol i leihau nifer yr achosion o ganser a sicrhau gofal teg ledled Cymru.

## Ysmygu

Mae lefelau ysmygu yng Nghymru wedi gostwng yn sylweddol o 22.3% yn 2011 i 12.6% yn 2023, gyda gostyngiadau i'w gweld ar draws pob grŵp oedran a rhyw. Mae'r gostyngiad mwyaf ymysg oedolion ifanc rhwng 18 a 24 oed, gan ostwng o 26.5% i 8.5%, tra bod grwpiau oedran hŷn, yn enwedig y rhai dros 65 oed, yn gweld gostyngiadau arafach. Mae amrywiadau rhanbarthol yn bodoli, gydag ardaloedd fel Powys a Sir Fynwy yn nodi rhai o'r cyfraddau ysmygu isaf, tra bod ardaloedd fel Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn dal yn gweld cyfraddau uwch.

Rydyn ni'n debygol o weld gostyngiad parhaus yn y dyfodol, lle mae agweddau cymdeithasol a gwasanaethau cymorth yn chwarae rolau allweddol, er bod heriau'n parhau mewn rhanbarthau â lefelau uchel ac ymysg ysmygwyr hŷn. Mae disgwyl y bydd gostyngiad mewn ysmygu yn cael effaith gadarnhaol ar ofal canser yng Nghymru, yn enwedig o ran lleihau mathau o ganser sy'n gysylltiedig ag ysmygu fel canser yr ysgyfaint, er y bydd baich gweddilliol mathau o ganser sy'n gysylltiedig ag ysmygu yn parhau yn y tymor byr i ganolig, yn enwedig ymysg oedolion hŷn sydd wedi ysmygu ers blynyddoedd lawer.










## Gordewdra

Mae gordewdra yng Nghymru wedi bod yn cynyddu'n raddol. Cofnodwyd bod 26% o oedolion yn ordew yn 2022/23, i fyny o 17.8% yn 2003. Rhagwelir y bydd y cynnydd hwn yn parhau, a disgwylir y bydd nifer yr achosion o ordewdra yn cyrraedd 32% erbyn 2040. Mae cyfraddau gordewdra yn amrywio'n sylweddol ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Ym Mlaenau Gwent mae'r gyfradd uchaf (36.9%) ac yn Sir Ddinbych mae'r isaf (17.6%). Mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn chwarae rhan fawr, gydag ardaloedd mwy difreintiedig yn debygol o weld cynnydd cyflymach yn nifer yr achosion o ordewdra.

Mae gordewdra yn ffactor risg sylweddol ar gyfer o leiaf 13 math o ganser, ac wrth i gyfraddau gordewdra godi, disgwylir i nifer yr achosion o ganser sy'n gysylltiedig â gordewdra gynyddu hefyd, yn enwedig mewn rhanbarthau sydd â chyfraddau gordewdra uwch. Bydd hyn yn cynyddu'r straen ar wasanaethau gofal canser, gan godi costau a chymhlethu triniaeth. Nod mentrau iechyd y cyhoedd, fel Pwysau Iach: Cymru Iach gan Llywodraeth Cymru, yw mynd i'r afael â'r epidemig gordewdra, ond bydd gweithredu effeithiol yn hanfodol i leihau beichiau canser yn y dyfodol a lleddfu'r pwysau ar y system gofal iechyd.

**Eisiau gwybod mwy?**

Anfonwch e-bost at helo@hwbgbcymru.com i gael yr adroddiad llawn, gan gael mynediad at fewnwelediadau, ystadegau a gwybodaeth allweddol am dirwedd canser Cymru.

## Gwybodaeth am y Sector

Mae ein tîm yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am dueddiadau'r farchnad, anghenion cwsmeriaid a thirwedd ehangach y diwydiant. Mae hyn yn siapio strategaethau, yn nodi risgiau ac yn dod o hyd i gyfleoedd twf cyffrous. Mae sefydliadau comisiynu yn cynnwys busnesau bach a chanolig, byrddau iechyd, Llywodraeth Cymru, a'r byd academaidd.

## Gwybodaeth am Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru

Rydyn ni'n gyrru'r gwaith o ddatblygu a defnyddio arloesedd gwyddorau bywyd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Rydyn ni'n rhyngwyneb deinamig, sy'n cysylltu arloeswyr gwyddorau bywyd â phartneriaid ymchwil, cyfleoedd cyllido, defnyddwyr a thimau iechyd a gofal cymdeithasol ar y rheng flaen i gefnogi llesiant, ac yn y pen draw, i greu twf, swyddi a ffyniant ledled Cymru.

## Sut gallwn ni eich helpu chi

E-bostiwch helo@hwbgbcymru.com i gael gwybod sut gall ein cymorth ni helpu eich arloesedd i gyrraedd y rheng flaen.

lshubwales.com/cy

helo@hwbgbcymru.com

Chwefror 2025